Datblygu a gweithredu polisi bridio a magu ar gyfer ceffylau

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu a gweithredu polisi bridio a magu ar gyfer ceffylau.  Mae ar gyfer y rheiny sydd yn gysylltiedig â phenderfyniadau rheoli a gwneud polisïau yn ymwneud â rheoli gre, ac mae'n cynnwys dewis a rheoli cesig magu, cesig sy'n bwrw ebol, stoc ifanc a/neu feirch.

Mae'r safon hon yn cynnwys datblygu a gwerthuso'r polisi rheoli greoedd, yn cynnwys dewis cesig a meirch ac arferion rheoli o ddydd i ddydd, fel bwydo yn ogystal â magu stoc ifanc.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd anifeiliaid ac iechyd a lles mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. datblygu polisi bridio a magu ar gyfer ceffylau yn seiliedig ar werthuso tueddiadau yn y dyfodol, anghenion sefydliadol a'r farchnad, y cynllun busnes ac adnoddau staff
2. sicrhau bod nodau ac amcanion y polisi'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ac arfer gorau cyfredol
3. cyfathrebu'r polisi i bawb fydd yn gysylltiedig â'i weithredu
4. goruchwylio gweithredu'r polisi yn effeithiol
5. sicrhau bod dillad ac offer amddiffynnol personol priodol yn cael eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
6. gwerthuso'r polisi yn erbyn y nodau a'r amcanion a gytunwyd ar gyfnodau cytûn
7. gweithredu ar benderfyniadau yn deillio o'r broses werthuso yn brydlon
8. icrhau bod y cofnodion priodol yn cael eu cadw a'u storio, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
9. asesu peryglon a rheoli risg i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y dillad a'r offer amddiffynnol personol y dylid eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
2. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol
3. y diwydiant bridio ceffylau, ei ddatblygiadau a thueddiadau i'r dyfodol
4. y dulliau o ddadansoddi tueddiadau
5. y codau ymarfer a'r gofynion deddfwriaethol sy'n llywodraethu bridio a magu ceffylau
6. y cynlluniau magu a chofrestru, cofrestru cesig, meirch ac ebolion
7. achres a dewis cesig a meirch at y defnydd y'u bwriadwyd
8. polisïau ar ddatgelu gwybodaeth
9. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion
10. telerau, ffioedd a dulliau talu greoedd, a'r ffurflen enwebu
11. y rheoliadau'n ymwneud â brechu, swabio a chlefydau gwenerol
12. gofynion deietegol ac ymarfer cesig, meirch a stoc ifanc
13. rôl y llawfeddyg milfeddygol yn rheoli greoedd yn effeithiol
14. sut i ffurfio gweithdrefnau ffrwythloni yn unol ag anghenion y gaseg, y march a'r diwydiant.
15. Pwysigrwydd adolygu systematig i wella polisi
16. Pwysigrwydd sicrhau bod addasiadau polisi'n cael eu gweithredu a'u lledaenu

Datblygu a gweithredu polisi bridio a magu ar gyfer ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq404 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; bridio; polisi; gre |